Gwers: Diogelwch yn yr Haul

Amcanion Dysgu:

- Prosesu data a llunio graffiau gan ddefnyddio TGCh.
- Deall pwysigrwydd diogelwch yn yr haul.
- Deall gwybodaeth gyfredol ar bwnc a'i chyfosod i eraill.
- Ymchwilio i bwnc penodol gan ddefnyddio'r rhyngrwyd.

I ddechrau: Darllenwch erthygl y BBC 'Young face skin cancer time bomb' http://news.bbc.co.uk/1/hi/health/3580315.stm Trafodwch beth mae'r erthygl yn ei ddweud. Sicrhewch y caiff y diffiniadau o bob gair/terminoleg newydd eu deall.	**Disgyblion** Darllen neu wrando ar erthygl ar dorheulo a materion cyfoes ynghylch amlygiad i'r haul. Deall yr erthygl a dysgu unrhyw ddiffiniadau/terminoleg newydd.	**Athro** Hwyluso'r gwaith o ddarllen yr erthygl. Helpu'r disgyblion i ddeall unrhyw eiriau newydd.
Prif dasg: Llwythwch y daenlen a thrin y data. Plotiwch graffiau i helpu i ateb cwestiynau/damcaniaethau. Gweler y nodiadau. Rhowch adborth ar ganfyddiadau i'r dosbarth cyfan. Lluniwch gasgliadau.	**Disgyblion** Defnyddio data i blotio graffiau. Gwneud nodiadau ar ganfyddiadau i'w cyflwyno i'r dosbarth cyfan.	**Athro** Rhoi cwestiynau/damcaniaethau i'r disgyblion i lywio'r gwaith o drin data. Cynorthwyo'r defnydd o TGCh a phlotio graffiau. Trefnu sesiwn adborth i'r dosbarth.
Sesiwn lawn: Gwyliwch glip fideo ar ddiogelwch yn yr haul yn http://www.summerskin.com/ (bydd angen cysylltiad band eang arnoch) neu ymchwiliwch i safleoedd eraill i ddysgu am ddiogelwch yn yr haul. Mae www.skincancerfacts.org.uk yn arbennig o dda ac mae'n cynnwys gêm) http://www.statistics.gov.uk/services/downloads/AwarenessWeek.doc	**Disgyblion** Cymryd rhan mewn gweithgaredd i'r dosbarth cyfan.	**Athro** Penderfynu ar y gweithgaredd priodol i'r dosbarth cyfan. Dylai'r disgyblion ddysgu sut i ddiogelu eu hunain yn yr haul.

Canlyniadau:
Bydd pob disgybl yn: Gwrando ar/darllen gwybodaeth, ceisio llunio graffiau, deall ffyrdd i ddiogelu eu hunain yn yr haul.
Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn: Prosesu data a llunio graffiau, archwilio a rhestru ffyrdd o ddiogelu eu hunain yn yr haul, cwblhau cerdd, dysgu geirfa.
Bydd rhai disgyblion yn: Llunio casgliadau o ddata, deall pwysigrwydd diogelwch yn yr haul, gwybodaeth ymchwil bellach.

Adnoddau:
Geiriadur, Cyfrifiadur, Meddalwedd taenlenni, Argraffydd, Adnoddau gwersi wedi'u hargraffu, Mynediad i'r rhyngrwyd.

Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth:
Dosbarth cyfan, disgyblion yn gwneud y prif weithgaredd yn unigol neu mewn parau. Gellir cyflwyno'r sesiwn lawn fel cyfnod taflu syniadau neu yn unigol.

Geiriau allweddol: Haul, Canser, Melanoma, Canseraidd, Data, Graff, Amlygiad, Man geni, UVA, UVB, Dermatoleg.	**Cysylltiadau Strategol CA3/CC/Cysylltiadau Traws-Gwricwlaidd:** Mathemateg: Trin Data MA4, NNS tudalennau 248-276 Dinasyddiaeth: 2c/ Trafodaeth Ddosbarth AIBCh: 2f/4h Ffordd o Fyw Iachach Gwyddoniaeth: Effeithiau'r Haul Saesneg: EN1/2/3 Ysgrifennu i hysbysu, geirfa newydd, cyfosod gwybodaeth.

Gwybodaeth Flaenorol:
Dadansoddi data a phlotio graff gan ddefnyddio TGCh.

Asesiad o'r Dysgu:
Trafodaeth ddosbarth, Canlyniadau data a graffiau, Tasg gwaith cartref.

Gweithgaredd Ymestyn:
Archwilio tueddiadau o ran diogelwch yn yr haul ymhellach. Gweler y nodiadau.

Syniadau Gwaith Cartref:
Y disgyblion yn llunio eu taflen ffeithiau eu hunain ar ddiogelwch yn yr haul. Ysgrifennu cerdd acrostig gan ddefnyddio gair sy'n gysylltiedig â'r haul, sy'n rhoi cyngor da ar ddiogelwch yn yr haul.

Nodiadau:
Prif Weithgaredd:
Llwytho data i ardal a rennir/ar rwydwaith yr ysgol. Cwestiynau i'w hystyried. Dynion neu ferched sydd â'r cyfraddau uchaf o felanoma canseraidd? Dynion neu ferched sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio eli haul? Dynion neu ferched sy'n ystyried bod diogelwch yn yr haul bwysicaf? Noder, mae merched yn fwy tebygol o dorheulo na dynion.
Sesiwn lawn:
Mae gan yr Adran Iechyd wybodaeth am ofal yn yr haul.
Chwiliwch yn:
http://www.dh.gov.uk/Home/fs/en
Ymestyn:
Ceisiwch ddechrau gyda'r erthyglau newyddion hyn.
http://news.bbc.co.uk/1/hi/health/3142386.stm
http://news.bbc.co.uk/1/hi/health/3128063.stm
Cyswllt ar sut i ysgrifennu cerddi acrostig
http://www.gigglepoetry.com/poetryclass/acrostic.html

Eich nodiadau/cwestiynau eich hun:

Nodiadau ar y wers/gwerthusiad

Crëwyd yr adnodd hwn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn www.statistics.gov.uk